



AC(4)2011(5) Papur 2 rhan 1

Dyddiad: 20 Hydref 2011

Amser: 13:00-15:00

Lleoliad: Swyddfa'r Llywydd

Enw a rhif cyswllt yr awdur: Dr Non Gwilym, estyniad 8647

Gwasanaethau Dwyieithog

1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Yn ystod ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011, gwahoddwyd y Comisiwn i ystyried y ffordd ymlaen o ran darparu gwasanaethau dwyieithog i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd. Cytunodd i wneud y canlynol:

- a. ymgynghori ar y Bil Ieithoedd Swyddogol drafft (y Bil) a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog (y Cynllun); a
- b. darparu, fel rhan o'r Cynllun, Gofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn cwbl ddwyieithog (ar yr amod y gellir gwneud hyn mewn ffordd gynaliadwy ac am gost resymol yn yr hirdymor).

1.2 Mae'r papur hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Comisiwn ar gynnydd parthed:

- a. yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil a'r Cynllun, a
- b. dichonoldeb cyfieithydd proffesiynol yn defnyddio cyfieithu peirianyddol i hwyluso'r gwaith o gynhyrchu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog.

2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir y Comisiwn i nodi'r cynnydd parthed yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil a'r Cynllun a gwaith archwiliadol pellach a gyflawnwyd mewn perthynas â darparu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog.

3.0 Trafodaeth

Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft

- 3.1 Lansiodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Fil (drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 3 Awst 2011. Cafwyd cyflwyniad gan Rhodri Glyn Thomas AC a Keith Bush a hefyd sesiwn cwestiwn ac ateb ym mhabell y Cymdeithasau. Cafwyd cynulleidfa o 20 o bobl, yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas yr Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r cyfryngau.
- 3.2 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r lansiad gan y cyfryngau Cymraeg ac roedd y sylw yn gadarnhaol. Roedd y gwaith dilynol gyda'r cyfryngau yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cyfryngau a'r cyhoedd yn deall y byddai cyfieithu peirianyddol yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â gwaith prawfddarllen arbenigol a sicrwydd ansawdd.
- 3.3 Ers y lansiad, mae fideo gan Keith Bush, yn seiliedig ar ei gyflwyniad yn yr Eisteddfod ac yn ystod y tri gweithdy y cyfeirir atynt isod wedi ei ddarparu ar wefan y Cynulliad. Byddant yn gymorth gwybodaeth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Hefyd, cyhoeddwyd erthygl farn gan Keith Bush ar y Bil leithoedd Swyddogol yn y Western Mail ar 28 Medi (Atodiad A).
- 3.4 Yn ogystal, cynhaliwyd tri gweithdy yn yr wythnos yn dechrau ar 26 Medi mewn tri lleoliad:
- 26 Medi 09:30-11.30 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Colwyn;
 - 26 Medi 15:00-17:00 - Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth;
 - 28 Medi, 09:30-11:30 – Y Pierhead, Bae Caerdydd,
- o'r enw "Pwerau deddfu a gwasanaethau dwyieithog yn y Cynulliad Cenedlaethol".
- 3.5 Er mai annog y rhai oedd yn bresennol i ddarparu ymatebion ysgrifenedig, ystyriol, llawn i'r ymgynghoriad oedd canolbwynt y

gweithdai, daeth rhai themâu a chwestiynau cyffredin i'r amlwg, gan gynnwys:

- yr angen i'r Cynulliad roi arweiniad cryf ar wasanaethau dwyieithog;
- monitro a chydymffurfio – a fyddai yna ddull effeithlon o sicrhau bod y Comisiwn yn glynu wrth ei gynllun?
- asesiad effaith - a ddylai fod yn ddyletswydd gyfreithiol cael asesiad ffurfiol i gyd-fynd â deddfwriaeth anllywodraethol a gyflwynir yn y Cynulliad, a hynny er mwyn nodi ei heffaith ar yr iaith Gymraeg (fel bydd yn wir gyda deddfwriaeth a gynigir gan y Llywodraeth o dan safonau arfaethedig a orfodwyd o dan Fesur y Gymraeg 2011)?
- a yw'r ffaith y bydd y Cynllun yn cael ei alw "Y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog" (yn hytrach na "Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol") yn awgrymu y bydd cwmpas y Cynllun wedi ei gyfyngu ac na fydd yn berthnasol i'r ystod lawn o weithgareddau yn y Cynulliad?
- beth yw ystyr "yn wirioneddol ddwyieithog"? ac
- a ddylai fod yn ofyniad cael cyfieithiad dwyieithog llawn o Gofnod y Trafodion ar wyneb y Bil (h.y. ac nid yn y Cynllun yn unig)?

3.6 Mae gweithdai hefyd yn cael eu trefnu i staff y Cynulliad er mwyn rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau, gwneud sylwadau ac ystyried effaith y cynllun drafft ar y ffordd y darperir gwasanaethau. Cynhelir cyfarfod gyda'r Undebau ar y cyfle cyntaf ynghyd â sesiwn galw heibio i staff cymorth.

3.7 Daeth y cyfnod ymgynghori cyn y broses ddeddfu i ben ar 14 Hydref. Caiff ymatebion eu dadansoddi ac unrhyw gynigion ar gyfer diwygiadau i'r Bil a'r Cynllun eu llunio. Yna caiff y rhain eu cyflwyno i'r Comisiwn ym mis Tachwedd, fel y gall ystyried fersiynau terfynol y cynigion, gyda'r bwriad o gyflwyno'r Bil yn ffurfiol a gosod y Cynllun drafft gerbron y Cynulliad ar ddechrau mis Rhagfyr.

3.8 Erbyn hyn, y dyddiad y disgwylir i'r Bil ddod yn gyfraith ac i'r Cynllun ddod i rym yw mis Mehefin 2012 (er bod posibilrwydd o gyflymu'r broses).

Y newyddion diweddaraf am ddichonoldeb defnyddio cyfieithu peirianyddol ar y we a meddalwedd cyfieithu i gynhyrchu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog

3.9 Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf, cytunodd y Comisiwn mewn egwyddor i adfer Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog cyn belled â bod y trefniant yn gynaliadwy yn yr hirdymor ac yn arddangos gwerth da am arian. Gofynnwyd i swyddogion archwilio'r opsiwn o ddefnyddio Google Translate, system gyfieithu peirianyddol ynghyd â defnyddio sgiliau prawfddarllen cyfieithydd proffesiynol i reoli ansawdd er mwyn cyflawni hyn.

3.10 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, profodd cyfieithwyr y Cynulliad ddwy system gyfieithu beirianyddol ar-lein, y ddau wedi eu cynhyrchu gan Google - Google Translate (Translate) a Google Translate Toolkit (Toolkit).

3.11 Mae'r ddwy system yn helpu'r darllenydd i ddeall cynnwys cyffredinol testun mewn iaith dramor. Nid yw'r naill na'r llall yn darparu cyfieithiadau hollol gywir. Yr un yw'r canlyniad i ddechrau o ran ansawdd y cyfieithiad a chyflymder cyfieithu'r ddwy system.

3.12 Ar ben hynny, mae Toolkit

- yn galluogi rhannu dogfennau ar-lein gydag eraill er mwyn golygu a chywiro cyn eu cyhoeddi;
- yn cynnig yr opsiwn o ychwanegu'r cyfieithiad wedi ei gywiro i'r casgliad o destunau sy'n cael ei ddefnyddio gan y rhaglen i gyfieithu'r holl ddogfennau, sy'n ychwanegu at y casgliad fel y bydd o fudd yn y dyfodol i bob defnyddiwr arall;
- yn caniatáu i'r defnyddiwr lwytho dogfen lawn, waeth beth yw nifer y geiriau, tra bod gan Google Translate gyfyngiad o 5,000 y sesiwn; a
- gellir ei wella drwy "ategu" technolegau eraill fel rhaglenni cof cyfieithu e.e. pecyn WordfastPro, a brynwyd yn ddiweddar gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol.

- 3.13 Mae'n rhy gynnar i allu bod yn fanwl gywir am botensial system o'r fath, ond gallai arwain at fesurau effeithlonrwydd yn gysylltiedig â gofynion cyfieithu o bob math.
- 3.14 Mae'r ddwy system am ddim i ddefnyddwyr ar hyn o bryd, er y bydd Comisiynwr yn cofio bod Google wedi cyhoeddi ei gynlluniau i godi tâl am y gwasanaeth Translate mor fuan â mis Rhagfyr 2011. Yn dilyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf, buom mewn cysylltiad â Google i ofyn am eglurhad o'r strwythurau prisio a graddfeydd amser, ond ni dderbyniwyd ateb hyd heddiw. Rydym yn hyderus fodd bynnag, ar ôl trafodaethau â Bwrdd yr Iaith Gymraeg nad oes gan Google unrhyw fwrriad i godi tâl am Toolkit. Deallwn mai ymateb Google i gamddefnydd sylweddol o'i system oedd y penderfyniad i gyflwyno strwythur talu gan fod hyn yn gynyddol niweidio enw da'r system ac yn y pen draw, enw da Google ei hun.
- 3.15 Yn ystod y toriad, cafwyd ymarfer peilot i ddarganfod a oedd Toolkit yn gallu darparu dewis amgen posibl i drefniadau blaenorol ar gyfer Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog.
- 3.16 Yn seiliedig ar ein canlyniadau, rydym yn amcangyfrif na fydd y costau blynyddol i gynhyrchu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog, gan ddefnyddio cyfuniad o gyfieithu peirianyddol a golygu â llaw, yn fwy na £100k.
- 3.17 Mewn cyfarfod ar 3 Hydref a fynychwyd gan Rhodri Glyn Thomas AC, staff y Cynulliad a swyddogion o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, nodwyd bod y Bwrdd yn comisiynu adroddiad annibynnol ar effeithlonrwydd, cost ac ansawdd y canlyniadau a gynhyrchir gan y systemau cyfieithu peirianyddol blaenllaw, gan gynnwys Google a'r rhai hynny a ddatblygwyd gan Ganolfan Bedwyr inter alia. Bydd y casgliadau yn ein helpu i ddeall sut y gall y Comisiwn gynhyrchu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog mewn ffordd gynaliadwy ac am gost resymol. Anelwn at ddod â'r gwaith archwiliadol i ben erbyn dechrau mis Tachwedd a chyflwyno argymhellion i'w hystyried gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.